Gŵyl Fel ‘na Mai

Datganiad i’r wasg

Gwobrau Coffa Ail Symudiad 2025

Canolfan Hermon, Sir Benfro - 14 Chwefror, 2025

Y gystadleuaeth sy’n gwobrwyo artistiaid ifanc newydd ac yn rhoi hwb i’w gyrfa gerddorol

Dyma’r drydedd noson wobrwyo i’w chynnal er cof am y brodyr Richard a Wyn Jones, sylfeinwyr y grŵp poblogaidd, Ail Symudiad, a’r cwmni recordiau blaengar, Fflach.

Llwyddodd cystadlaethau 2023 a 2024 ddod â thalentau newydd fel y bandiau ***‘Dros dro’*** a ***‘Gelert / Lafant’***, ynghyd ag unigolion fel ***Danny Sioned*** i’r amlwg, a nod trefnwyr y gystadleuaeth yw i ddod â mwy o gerddorion newydd cyffrous i sylw’r gynulleidfa Gymraeg yn 2025.

Eleni mae’r gystadleuaeth yn agored i gerddorion o bob cwr o Gymru, yn fandiau, grwpiau ac unigolion.

Bydd y band neu grŵp buddugol yn derbyn ***Tlws Her Trefigin***, gwobr ariannol o ***£200,*** ynghyd â chyfle i berfformio ar lwyfannau tair gŵyl gerddorol - ***‘Gŵyl Fel ‘na Mai’, ‘Gŵyl Crug Mawr’ a ‘Gŵyl Crymych Arms’*** yn 2025.

Am y tro cyntaf yn hanes y noson, cynigir gwobr i ***Artist Unigol***. Bydd yr enillydd yn derbyn ***Tlws Kevin***, er cof am Kevin Davies a fu’n ffigwr allweddol yn natblygiad Cwmni Fflach, ynghyd â gwobr o ***£100****.* Bydd cyfle i’r unigolyn buddugol hefyd berfformio ar lwyfannau’r dair ŵyl.

Bydd buddugwyr gwobrau 2025 yn elwa ar ***Sesiwn Recordio*** fel gwobr ychwanegol, diolch i gefnogaeth a chydweithrediad ***Fflach Cymunedol***, y fenter sydd â’i phryd ar symud label Fflach ymlaen i’r dyfodol gan sicrhau parhad i’r gwaith gwerthfawr a gyflawnwyd gan Rich a Wyn.

Rhaid i gystadleuwyr gynnig set hyd at 15 munud o hyd o ganeuon cyfrwng Cymraeg. Mae disgwyl i’r caneuon fod yn gyfansoddiadau gwreiddiol, ond caniateir i un ohonynt fod yn fersiwn o gân o waith cyfarwydd gan artist arall. Disgwylir i gystadleuwyr ymrwymo i berfformio yng Nghanolfan Hermon, Sir Benfro ar 14 Chwefror, 2025.

Mwy o wybodaeth am y gystadleuaeth, a ffurflen gystadlu, ar wefan

gwobrau.felnamai.cymru